# Bathodyn Cyfathrebu Lliw

Maent yn ddull o gefnogi rhyngweithio cymdeithasol gyda phobl sydd ag amrywiaeth o wahaniaethau cyfathrebu. Mae bathodynnau cyfathrebu lliw yn cael eu defnyddio'n helaeth gan y gymuned niwrowahanol mewn gofodau a chynadleddau niwrowahanol.

Maent yn cynnig dull cyffredin o wneud cynhadledd, digwyddiad neu ofod arall yn fwy hygyrch, trwy gynnig y cyfle i nodi'n glir i ba raddau yr ydych yn dymuno cymryd rhan mewn rhyngweithiad cymdeithasol. Os ydych chi'n hapus i siarad gyda phobl, yna gallwch ddewis peidio gwisgo bathodyn neu gallwch ddewis gwisgo'r bathodyn gwyn.

Fe all eich anghenion newid trwy gydol y diwrnod, ac felly gallwch ddewis newid eich bathodyn yn ôl eich angen ar unrhyw adeg.

Gwyrdd - Fe hoffwn i gymdeithasu ond rwy'n cael trafferth dechrau sgwrs. Dechreuwch sgwrs gyda mi

Niwtral (Gwyn) - Rwy'n gallu rheoleiddio fy rhyngweithio fy hun

Melyn – Peidiwch â dechrau sgwrs oni bai fy mod wedi rhoi caniatâd i chi ddod ataf pan fyddaf yn gwisgo bathodyn melyn

Coch – Peidiwch â dechrau sgwrs gyda mi